Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 28 Chwefror 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, D. Williams, A. Williams, E. Parry, Mervyn Jones, D. James, S. Edwards, G. Parry H
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	G. C. Jones, H.Huws, Meirion Jones,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Datganwyd diddordeb gan G. Parry ac A. Jones yn eitem 14 ar y Rhaglen		
3.0	**Cyfrifon Mis Chwefror 2017**		
3.1	Cytunwyd i sefydlu'r Dydd Gwener cyn cyfarfodydd misol y Cyngor Bro fel 'cut-off' ar gyfer derbyn anfonebau i'w dalu'r mis hwnnw.		
3.2	Gofynnwyd i'r clerc baratoi cymhariaeth o wariant trydan y Neuadd Snwcer a'r arian sydd wedi derbyn drwy'r byrddau snwcer erbyn Cyfarfod Mawrth	**D. Owen**	**28/03/17**
3.3	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	A. Mummery yn nodi bod pryderon am ffederaleiddio Ysgolion Llanfair a Brynsiencyn ac yn bwriadu gwrthwynebu		
4.2	A. Mummmery yn nodi wedi penderfyniad diweddar Wrandawiad Cais Cynllunio Hen Lon Dyfnia fod yna fwriad i roi cais newydd i mewn.		
4.3	A. Mummery yn nodi ei fod wedi hysbysu PCSO Wendy Kay o ddigwyddiadau diweddar yn y Pafiliwn.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 31 Ionawr 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery wedi trafod a swyddog ym Mlas Newydd ac yn nodi bod bwriad i wneud gwaith i wella'r Twr	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones a S. Edwards am barhau i weithredu ar drefniadau erbyn Mis Mai	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai 2017**
6.3	Llwybr beicio - Cyngor Sir yn nodi fod y mater i fod wedi ei ddatrys rhai misoedd yn ôl, ond mae am wneud trefniadau gyda'r contractwr i'w wneud cyn gynted â phosib.	**D. Owen**	**28/03/17**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Clerc I gysylltu â Saer Maen lleol am gyngor pellach ar atgyweirio'r cloc	**D. Owen**	**28/03/17**
6.5	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery wedi rhoi cyfarwyddiadau i gontractwr i wneud y gwaith.		
6.6	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc wedi bod mewn cysylltiad ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, ond heb dderbyn ymateb boddhaol hyd yn hyn. Clerc I ddilyn i fyny.	**D. Owen**	**28/03/17**
6.7	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery am wneud ymholiadau gyda Medrwn Môn am arweiniant ar sefydlu grŵp cymunedol ar gyfer ceisio am grantiau.	**A. Mummery**	**28/03/17**
6.8	Pryderon Parcio gyda chyfarfodydd Slimming World yn y Pentref - Clerc I gysylltu â Slimming World yn hysbysu nhw o bryderon cryf yn y pentref am y sefyllfa parcio a gofyn iddynt weithredu i wella'r sefyllfa neu bydd y Cyngor Bro yn hysbysu'r Heddlu a Chyngor Sir.	**D. Owen**	**28/03/17**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 07 Chwefror 2017**		
7.1	A. Jones yn cynnig, Mervyn Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		

8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	Ni chodwyd unrhyw fater newydd		
9.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 07 Chwefror 2017**		
9.1	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
10	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
10.1	A. Jones yn argymell bod y Clerc yn gwneud ymholiadau i uwchraddio'r wifi yn y Neuadd Goffa i Fibre Optic gan ei fod yn araf pan mae lot o ddefnyddwyr	**D. Owen**	**28/03/17**
10.2	Swydd Gofalwr - Cytunwyd i barhau a'r sefyllfa bresennol tan ar ôl yr etholiad a sefydlu'r Cyngor Bro Newydd.		**Mai 2017**
11.0	**Mandad Banc y Cyngor Bro**		
11.1	Nodwyd mai D. Owen, A. Mummery ac A. Jones sydd arno yn bresennol. Cytunwyd i'w gadw'r un fath tan fydd yr etholiad wedi bod.		
12	**Trefniadau'r Cyngor Bro ar gyfer yr Eisteddfod**		
12.1	S. Edwards yn nodi ei fod wedi derbyn e-bost yn gofyn iddo roi cais mewn i Eisteddfod Môn am arian ar gyfer addurniadau i groesawu'r Eisteddfod i Fôn os maent wedi heibio i'w targed casgliad. Cytunwyd i S. Edwards wneud yr ymholiadau pethnasol.		
13.0	**Tirmon 2017/18 a 2018/19**		
13.1	Cyflwynwyd y prisiau a dderbyniwyd. S. Edwards yn cynnig, D. James yn eilio i gynnig y gwaith i Mon Grass Cutting Services		
14	**Coeden yn y Clwb Bowlio**		
14.1	A. Jones ac G. Parry wedi derbyn cwynion am goeden yn gordyfu yn Safle'r Clwb Bowlio. E. Parry yn cytuno i alw allan i wneud asesiad ar y goeden.	**E. Parry**	**28/03/17**
15	**Ceisiadau Cynllunio**		
	Ni dderbyniwyd cais cynllunio		
16	**Gohebiaeth**		
16.1	Cyngor Sir Ynys Môn - Llythyr cau toiledau 01/04/2017 Derbyn y wybodaeth		
16.2	Cyngor Sir Ynys Môn - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
16.3	Llythyr - Clwb Ffermwyr Ifan Cymru - Cytunwyd i beidio rhoi rhodd		
17.0	**Materion Brys**		
17.1	G. Parry yn nodi bod difrod wedi bod yn Storm Doris i gysgodfa yn y Clwb Bowlio. Mervyn Jones yn cynnig, D. Williams yn eilio, Cytunwyd i'r Cyngor Bro archebu'r deunyddiau i atgyweirio'r gysgodfa		
17.2	J. Roberts yn gofyn i'r clerc yrru ymlaen rhestr o gynrychiolwyr wardiau Cyngor Bro ar gyfer yr etholiad	**D. Owen**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 28 Mawrth 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa